NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Emboleiddiad rhydweli'r brostad ar gyfer symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen

25 Ebrill 2018

Mae'r driniaeth hon yn gweithio'n dda ar gyfer symptomau'r llwybr wrinol isaf a achosir gan hyperplasia prostadol anfalaen, ac nid oes unrhyw bryderon difrifol ynglŷn â pha mor ddiogel ydyw.

Hyperplasia prostadol anfalaen yw pan fydd y prostad yn chwyddo ond nid o ganlyniad i ganser. Gall hyn flocio neu gulhau'r tiwb y mae wrin yn pasio drwyddo i adael y corff, gan achosi anhawster wrth basio wrin. Yn y driniaeth hon, gan ddefnyddio arweiniad pelydr X, caiff tiwb tenau o'r enw cathetr ei osod i mewn i rydweli yn y werddyr neu'r arddwrn. Caiff ei arwain i mewn i'r pibellau gwaed sy'n cyflenwi'r brostad. Yna, caiff gronynnau plastig bach eu chwistrellu i mewn i'r pibellau gwaed hyn. Mae hyn yn lleihau'r cyflenwad gwaed i'r brostad, gyda'r nod o'i grebachu.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy. Mae gan ganllawiau triniaethau ymyriadol NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-2936-8

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights